# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 23 Hydref 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Y Sector Gofal Annibynnol

**C6 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed o ran cynnig cymhellion i greu swyddi yn y sector gofal annibynnol? (OAQ19554)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Cyflogir oddeutu 70,000 o bobl yn y sector gofal cymdeithasol yn Nghymru; cyflogir o leiaf dwy rhan o dair o'r rhain yn y sector annibynnol a thyfodd y niferoedd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwbl ymwybodol o'r cyfraniad sylweddol a wna'r sector i economi Cymru.

Arweiniodd prif arolygydd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru grŵp gorchwyl a gorffen ar faterion y gweithlu mewn gofal cymdeithasol. Lluniodd y grŵp strategaeth ar wella recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ac i wella safonau ansawdd. Mae'r strategaeth wrthi'n cael ei gweithredu.

### Cyllid Cymru

**C7 Delyth Evans:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar hynt Cyllid Cymru? (OAQ19538)

**Andrew Davies:** Mae Cyllid Cymru'n parhau i wneud cynnydd da tuag at gwrdd a'i dargedau pum mlynedd o roi cymorth i 4,000 o gwmnïau bach sydd â photensial o dyfu a chreu 10,000 o swyddi newydd. O gymharu chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon â'r un cyfnod y llynedd, cynyddodd gweithgaredd yn sylweddol. Er enghraifft, bu 75 y cant o gynnydd yn nifer y cwmnïau bach a dderbyniodd gymorth, a bu 41 y cant o gynnydd yn yr effaith ar swyddi a grëwyd. Yn y mannau hynny na ddatblygodd mor sydyn ag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, mae Cyllid Cymru'n adolygu ei raglenni ac yn paratoi i wneud newidiadau a fydd yn sicrhau ei fod yn llwyr adnabod anghenion y farchnad.

### Rhaglen Amcan 1

**C8 Delyth Evans:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y rhaglen Amcan 1 ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd? (OAQ19537)

**Andrew Davies:** Mae rhaglen Amcan 1 ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn datblygu'n dda, gyda dros £380 miliwn wedi ei ymrwymo i 665 o brosiectau ar draws y rhanbarth. Cyflwynir adroddiad chwarterol ar ddatblygiad rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos nesaf.

### Y Diwydiant Ffilm yng Nghymru

**C9 Jonathan Morgan:** Pa gymorth datblygu economaidd sydd ar gael i hybu a datblygu'r diwydiant ffilm yng Nghymru? (OAQ19530)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu ystod eang o gymorth i hybu a galluogi i'r diwydiant ffilm yng Nghymru ddatblygu yn uniongyrchol a thrwy y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac asiantaethau eraill. Sgrîn yw'r prif gorff yn y maes hwn, sy'n gweithredu nifer o grantiau eu hunan, gan gynnwys £900,000 o gyllid loteri pob blwyddyn, yn ogystal â gweithredu fel porth i gyfleodd cenedlaethol a rhyngwladol eraill.

Mae sgôp hefyd i Awdurdod Datblygu Cymru, Cyllid Cymru a Bwrdd Croeso Cymru gynnig cymorth drwy raglenni grantiau a benthyciadau sy'n bodoli eisoes. Gall busnesau ffilm hefyd wneud cais uniongyrchol i'r Cynulliad am gymorth drwy gymorth rhanbarthol dewisol neu grant buddsoddi'r Cynulliad.

### Prosiect Arwain

**C10 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu goblygiadau'r prosiect Arwain i ogledd Cymru? (OAQ19539)

**Andrew Davies:** Bwriad prosiect Arwain yw helpu pobl i gysylltu â chysylltiad rhyngrwyd band eang a rennir yn ardal Caerdydd. Mae Arwain yn sefydliad nad yw'n gwneud elw sydd ag aelodaeth agored, ac mae'n mynd ati i ganfod cyfleodd i helpu eraill i ddatblygu prosiectau tebyg. Mae'n fodel y gellir ei weithredu ymron unrhyw le.

### Band Eang yng Ngogledd Cymru

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau bod mwy o wasanaethau rhyngrwyd band eang ar gael yng ngogledd Cymru a bod mwy o bobl y Gogledd yn manteisio arnynt? (OAQ19542)

**Andrew Davies:** Mae cynllun gweithredu Band Eang Cymru'n gynllun i Gymru gyfan wedi ei anelu at ysgogi cyflenwad a galw. Cymerwyd nifer o gamau eisoes fel rhan o'r cynllun. Ynhlith y rhain gweilr bod:

- y cynllun cymhorthdal lloerennau yn weithredol a chymeradwywyd tri o'r pedwar cais a dderbyniwyd o ogledd Cymru;
- adnoddau arddangos 'profi cyn prynu' band eang ar gael mewn chwe safle ar draws gogledd Cymru;
- cytundebau gwario gwerth dros £1 filiwn wedi eu dosbarthu gan Lywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol yn y Gogledd i ddatblygu rhwydwaith dysgu gydol oes;
- y Cynulliad a Fforwm Economaidd Gogledd Cymru yn trafod y posibilrwydd o leoli cynrychiolydd Band Eang Cymru yn y Gogledd i sicrhau y caiff y cynllun gweithredu ei ddatblygu mewn modd sy'n ymdrin ag anghenion lleol. Bydd y fforwm yn cyflwyno cynllun gweithredu arfaethedig i ni ei ystyried erbyn diwedd Tachwedd;
- diwrnod gwybodaeth, a fydd yn rhoi manylion ar fwriadau, amcanion a gweithgareddau cynllun gweithredu Band Eang Cymru, yn cael ei gynnal ar 5 Tachwedd yn Ewloe;
- y Cynulliad yn darparu cymorth ariannol i'r prosiect e-fro yn Nyffryn Ogwen, sy'n anelu at arddangos y buddiannau a dod a band eang fforddiadwy i'r ardal.

Yn olaf, caiff y £15 miliwn ychwanegol ar gyfer cynllun gweithredu Band Eang Cymru, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid, ei ddefnyddio ar draws Cymru, gan gynnwys y gogledd.

*Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ19532) yn ôl.*

### Allied Steel and Wire

**C13 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a staff Allied Steel and Wire ynghylch dyfodol y ffatri a'r gweithlu? (OAQ19557)

**Andrew Davies:** Mynychais gyfarfod undebol ASW yn y Railway Club yn Sblott, ar 5 Medi. Yn ystod y cyfarfod, bu inni drafod pryderon gweithwyr ynglŷn â'r cynllun pensiwn, gwaharddiad Castle Nails o'r cynllun budd-daliadau ailaddasu gweithwyr y diwydiant haearn a dur, perthynas Cydffederasiwn y Crefftau Haearn a Dur â'r derbynnydd, a materion hyfforddiant, addysg a chyflogaeth. Nodwyd nifer o bwyntiau gweithredu a rhoddwyd sylw i bob un ohonynt.

### Ailddatblygu'r Cymunedau Dur

**C14 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud parthed ailddatblygu'r cymunedau dur ar ôl cau ffatrïoedd Corus? (OAQ19543)

**Andrew Davies:** Defnyddiwyd y £76 miliwn ym mhecyn Corus, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i ariannu amrywiaeth o brosiectau ar gyfer adfywio hirdymor a chynaliadwyedd y cyn-gymunedau dur. Er enghraifft, mae Dysgu ac Addysgu Cymru wedi rhoi cefnogaeth a chyngor i tua 2,000 o weithwyr dur a ddiswyddwyd, ac mae Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau yn ei gefnogaeth i ddatblygu seilwaith ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy'n cynnwys darparu cysylltiadau band eang i ardaloedd strategol. Yr wyf hefyd yn falch o roi gwybod bod canolfan cyfathrebu, technoleg a blaengaredd y Cymoedd, sy'n costio £2.9 miliwn, wedi cael caniatâd cynllunio. Bydd y ganolfan yn diwallu'r angen am hyfforddiant a thechnoleg o'r safon orau yn y Cymoedd.

### Economi Conwy

**C15 Gareth Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gryfhau economi Conwy? (OAQ19561) [W]

**Andrew Davies:** Mae strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, 'Cymru'n Ennill', yn nodi sut yr ydym yn mynd i wella'r economi drwy Gymru benbaladr. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn Nhîm Cymru yn cydweithio er mwyn annog buddsoddiad a chynlluniau creu swyddi ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys Conwy. Yn gynharach eleni, cymeradwyais grant cymorth rhanbarthol dewisol sylweddol er mwyn galluogi cwmni newydd i fuddsoddi yn hen ffatri Alcoa yn Nolgarrog, ac er mwyn diogelu llawer o'r swyddi yno. Byddaf yn cymryd rhan mewn cyfarfod o Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ar 22 Tachwedd, lle bydd gennyf gyfle i wrando ar unrhyw bryderon neu gynigion sydd gan aelodau'r fforwm, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

### Gweld Gwybodaeth

**C9 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae cod ymarfer y Cynulliad ar weld gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â phrosiectau PFI? (OAQ19574)

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Mae'r Cod Ymarfer ar Ganiatau i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn berthnasol i bob gwybodaeth sydd gennym, gan gynnwys cynlluniau menter cyllid preifat.

### Cyllideb y Cynulliad

**C10 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb y Cynulliad yn sgîl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf? (OAQ19521)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at Gofnod swyddogol y Trafodion am drawsgrifiad o'm datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn ar ganlyniad yr adolyhiad o wariant ar 16 Gorffennaf, a'm datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft ar 15 Hydref.

## Cynigion Drafft ar gyfer y Gyllideb

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion drafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ei chyllideb? (OAQ19525)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at Gofnod swyddogol y Trafodion am drawsgrifiad o'm datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft ar 15 Hydref

## Siambr ac Adeilad Newydd y Cynulliad

**C12 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amserlen adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ19513)

**C13 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cam diweddaraf mewn cysylltiad â siambr newydd y Cynulliad? (OAQ19526)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn 4 (OAQ19576) Rhodri Glyn Thomas yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

## Cyllideb Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a roddwyd i'r portffolio diwylliant, chwaraeon a'r gymraeg yng nghyllideb y Cynulliad? (OAQ19579)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at Gofnod swyddogol y Trafodion am drawsgrifiad o'm datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft yr wythnos diwethaf. Bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn rhoi gwybodaeth bellach maes o law.

## Mentrau Cyllid Preifat

**C15 Peter Black:** Pa gynlluniau cyllid preifat sydd yn yr arfaeth yng Nghymru? (OAQ19528)

**Edwina Hart:** Ceir gwybodaeth ar y cynlluniau menter cyllid preifat y mae'r Cynulliad wedi eu cymeradwyo neu gefnogi ar wefan y Cynulliad. Mae manylion pellach yn cael eu casglu o ran prosiectau GIG Cymru, ac fe'u hychwanegir wrth iddynt ddod i law.